

Croeso i'r Proffil Ardal Forol


Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am Ddatganiadau Ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)¹. Mae Datganiadau Ardal yn ffordd o grynhai tystiolaeth ar adnoddau naturiol ac ecosystemau mewn ardal y gall pawb ei defnyddio i wneud penderfyniadau ar sut i'w rheoli nhw mewn ffordd gynaliadwy.

Rydyn ni wedi cychwyn trwy gynhyrchu Proffil Ardal ar gyfer pob un o'r saith ardal y bydd Datganiadau Ardal yn cael ei ddatblygu ar eu cyfer. Mae Proffiliau Ardal yn darparu crynodeb cryno, hawdd ei ddefnyddio o dystiolaeth gadarn ar ein hadnoddau naturiol a'r materion a wynebant. Dyma'r sail i'n sgysiau gyda'n partneriaid.

Mae'r Proffil Ardal hwn yn tynnu ar dystiolaeth a data presennol sydd wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd ac adolygiad gan gymheiriaid, yn enwedig y rhai a amlinellir yn 'Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru'² Llywodraeth Cymru, a'i phorth data morol ar-lein³. Mae'r rhain yn darparu adolygiad mwy cynhwysfawr o dystiolaeth forol ar gyfer Cymru, ac maen nhw'n cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Mae pob Proffil Ardal wedi'i rannu'n dair adran: *pobl a lle*, *adnoddau naturiol* ac *ein hamgylchedd*.

Mae pob un o'r Proffiliau Ardal tir yn cynnwys gwybodaeth forol ac arfordirol sy'n berthnasol i'r ardal leol, gan adlewyrchu'r berthynas bwysig rhwng y tir a'r môr.





Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol



Rheoli ein hamgylchedd

Ardal forol Cymru

Mae amgylchedd morol Cymru yn hynod amrywiol, yn unigryw ac yn arbennig iawn⁴.

Mae ardal forol glannau Cymru yn ymestyn allan i bellter o 12 môr-filltir (nm)⁵, gan gwmpasu ychydig o dan 15,000 km² neu 41% o diriogaeth Cymru. Mae ein moroedd yn darparu cyfoeth o adnoddau naturiol rydyn ni i gyd yn elwa arnyn nhw – tywod ar gyfer adeiladu, pysgod ar gyfer bwyd, amrywiaeth o fywyd gwyllt, gofod ar gyfer hamdden a mwynhad, rheoleiddio'r hinsawdd, ynni glân i gefnogi ein ffyrdd o fyw a modd o gyflawni masnach a thrafnidiaeth fyd-eang².

Er bod y mapiau'n sefydlog, mae'r Proffil Ardal yn cynnwys llawer o fotymau i'w clicio (megis y bar top). Gallwch ddefnyddio'r rhain i bori trwy ein tystiolaeth ar gyfer yr ardal forol.





Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd



Pobl a lle

Cyflwyniad i'r proffil ardal forol ac i'r bobl sy'n byw ar yr arfordir




Adnoddau naturiol (bioamrywiaeth, dŵr a phrosesau ffisegol)

Cyflwyniad i'n hadnoddau naturiol – yr elfennau sy'n cyfrannu at ein hamgylchedd



Rheoli ein hamgylchedd

Mae ein hadnoddau naturiol yn cyfuno a rhyngweithio mewn ffyrdd unigryw i gynhyrchu pob math o wahanol ecosystemau



Trosolwg o'r Datganiad Ardal

Bydd Datganiadau Ardal yn helpu i gydgyssylltu ein gwaith a gwaith pobl eraill, gan wella cydnerthedd ein hecosystemau

Pob delwedd © Cyfoeth Naturiol Cymru. Clocwedd o'r top ochr chwith: Llwybr arfordir Cymru © Canolfan Ddelweddau Croeso Cymru; cregyn ar figl – bioamrywiaeth islanw yng Nghymru, arfordir Ynys Môn; arfordir Ynys Môn ger Ynys Lawd, Caergybi; Dolffin trwynbwl yn nyfroedd Cymru

Rhestr o Acronymau

Cyfeiriadau




Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd



© Cyfoeth Naturiol Cymru. Pont Menai rhwng Ynys Môn a Gwynedd

Poblogaeth

Iechyd

Morweddau

Twristiaeth a hamdden

**Rheoli perygl llifogydd ac
erydu arfordirol**

Rheoli traethlin

Gwastraff

**Diwydiannau a
datblygiad**

Ynni

Dyframaeth



Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	-----------	-----------------------	--------------------------------------	------------------	-----------	-------------	------	------------

Poblogaeth




Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o drefi mawr a dinasoedd ar lan y môr, gyda thros 60% o'n poblogaeth yn byw ar hyd yr arfordir².

Mae'r moroedd o amgylch Cymru, a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r môr, yn gwneud cyfraniad sylweddol at lesiant pobl trwy ddarparu swyddi a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a thrwy gefnogi amrywiaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o dreftadaeth².

Mae'r rhai sy'n byw yn ymyl yr arfordir yn fwy tebygol o fod yn fedrus a chael eu cyflogi'n rhan-amser na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy mewndirol⁶. Ar y cyfan, mae llai o dlodi, ynghyd â lefelau anabledd is a gwell iechyd, o gymharu ag ardaloedd nad ydynt ar yr arfordir⁶. Fodd bynnag, mae lefelau uwch o orlenwi a thai heb wres canolog, ac mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU ar hyd arfordir Cymru⁶. Mae gan ein hamgylcheddau morol y potensial i fod yn rhai o'r ardaloedd mwyaf deniadol yn Ewrop i fyw ynddyn nhw, i weithio ynddyn nhw ac i ymweld â nhw⁵.



© Cyfoeth Naturiol Cymru. Paul Brazier. Ymweliad â Borth gyda Countryfile Diaries y BBC



Mae'r ddelwedd uchod yn dod o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (fel ar 11 Rhagfyr 2018, tudalen 64)



Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	---------------	-----------	-----------------------	--------------------------------------	------------------	-----------	-------------	------	------------

Iechyd



Mae tystiolaeth yn dangos bod treulio amser ar yr arfordir yn gallu bod o fudd mawr i lesiant corfforol a meddyliol⁷. Mae pobl sy'n byw yn nes at y môr o'r farn bod eu hiechyd yn well, gyda chanlyniadau cryfach yn dod o gymunedau tlotach⁷.

Mae'r data'n dangos bod pobl sy'n byw yn nes at yr arfordir yn iachach ac yn dioddef llai o straen meddyliol⁸. Mae cydberthynas megis gwell ansawdd aer a mwy o gyfleoedd am brofiadau sy'n cryfhau rhwydweithiau cymorth cymdeithasol yn darparu'r cefndir i rai o'r canfyddiadau hyn⁸. Yn ystadegol, mae pobl sy'n byw ar yr arfordir yn fwy tebygol o lawer o wneud ymarfer corff yn rheolaidd, boed hynny trwy syrffio, hwylio, cerdded, pysgota neu nofio⁸.

Mae manteision byw mewn cymuned arfordirol yn cynnwys y canlynol⁸:

- Mae golygfa dda o'r môr yn gallu gostwng cyflymder y galon a gwella hwyliu
- Mae'r rhai sy'n byw o fewn 5 cilometr i'r arfordir o'r farn bod eu hiechyd yn well o lawer
- Mae'r rhai sy'n byw o fewn 1 cilometr i'r arfordir yn fwy tebygol o wneud ymarfer corff yn rheolaidd na'r rhai sy'n byw ymhellach nag 1 cilometr o'r arfordir
- Mae byw o fewn 5 cilometr i'r arfordir yn golygu eich bod chi'n fwy tebygol o fod â gwell iechyd meddwl o gymharu â'r rhai sy'n byw ymhellach na 5 cilometr o'r arfordir
- Gallai hamdden dŵr fod o fudd i'r economi trwy arbed hyd at £176 miliwn y flwyddyn ar ofal iechyd
- Mae ardaloedd arfordirol a thraethau yn darparu 3 budd iechyd mawr⁹
 - Llai o straen
 - Mwy o weithgarwch corfforol
 - Cymunedau cryfach

I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.bluehealth.2020.eu





Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	------------------	-----------------------	--------------------------------------	------------------	-----------	-------------	------	------------

Morweddau a threftadaeth




Cymeriad y forwedd neu'r arfordir yw ffocws y rhyngweithio rhwng pobl, tir a môr¹⁰. Yng Nghymru, mae gennym ni bob math o lefydd anhygoel ar ein harfordir¹¹. Mae uchafbwyntiau'n amrywio o ynysoedd anghysbell, swntiau, penrhynau a chlogwyni Sir Benfro a Phen Llŷn i'r amryw o draethau tywodlyd ym Mhenrhyn Gŵyr a Meirionnydd ac aberoedd mawr megis aber afon Hafren ac aber afon Dyfrdwy¹¹. Mae treftadaeth a gweithgareddau dynol yn amrywio o gestyll a cheiau hynafol i drefi glan môr traddodiadol prysur megis Dinbych-y-pysgod¹¹.

Mae gennym lu o chwedlau am diroedd coll a llongau suddedig, ac mae ein tirweddau a'n morweddau arfordirol wedi ysbrydoli llawer o artistiaid ac awduron dros y canrifoedd. Gan gynrychioli llefydd ar raddfa eang, mae gennym ni 29 o Ardaloedd Cymeriad Morol Cenedlaethol. Mae Ardaloedd Cymeriad Morol yn amlygu'r dylanwadau naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol allweddol sy'n gwneud cymeriad pob morwedd yn unigryw (mwy o wybodaeth [yma](#)). Mae astudiaethau cymeriad lleol ar raddfa lai yn rhoi manylion mwy o lefydd lleol ar gyfer tua 65% o'r arfordir¹².

Mae pob morwedd yn bwysig, ond mae rhai llefydd wedi'u poblogeiddio gan gymdeithas dros amser. Mae morweddau yn tueddu i fod â chymeriad unigryw; maen nhw'n amrywio o ardaloedd ysblennydd ac anghysbell Penrhyn Gŵyr a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro¹³ i dreftadaeth adeiledig sy'n defnyddio'r lleoliad naturiol, megis Llandudno, gyda phentiroedd calchfaen creigiog ar y naill ochr a'r llall iddi. Mae eu hansawdd uchel a'u hamrywiaeth fawr yn lleoliadau perffaith ar gyfer llawer o weithgareddau diwylliannol ac economaidd. Mae Bae Caerdydd bellach yn gartref i'n Senedd, ac mae ardal yr hen ddociau wedi ei hadfywio – ardal a fu'n gyfrifol am dwf ein prifddinas fel porthladd¹⁴.

Mae morweddau yn adlewyrchu'r cysylltiadau rhwng pobl a'n diwylliant, yr adnoddau naturiol lleol a threftadaeth gweithgarwch dynol o'r gorffennol¹⁵. Mae morweddau yn dylanwadu ar gynllunio arfordirol a morol^{2,5}. Mae morweddau o gwmpas Cymru yn bwysig ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys iechyd a llesiant, twristiaeth, ansawdd bywyd ac economeg². Mae ardaloedd arfordirol yng Nghymru yn denu llawer o ymwelwyr sy'n cefnogi twristiaeth a hamdden, megis yr atyniad i dwristiaid poblogaidd, Castell Caernarfon¹⁶, Bae Oxwich¹⁷ a childraethau a baeau bach Pen Llŷn¹⁸. Mae hyrwyddo'r hyn sy'n unigryw ac yn arbennig i ymwelwyr yn helpu i gyflwyno ffyniant a llesiant i'n cymunedau arfordirol².



Mae'r ddelwedd hon yn deillio o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (fel ar 11 Rhagfyr 2018, tudalen 74)



Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	-----------	------------------------------	--------------------------------------	------------------	-----------	-------------	------	------------

Twristiaeth a hamdden morol



Mae ein harfordir yn ysblennydd ac yn cynnig cymaint i bobl leol a thwristiaid yng Nghymru². Mae twristiaeth arfordirol yng Nghymru yn bwysig i economïau lleol, gan gynnwys llety, bwytai, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden². Mae Llwybr Arfordir Cymru yn enghraifft wych. Yn 2013, amcangyfrifwyd bod twristiaeth arfordirol yn werth £602 miliwn, gyda chyfanswm o 3.6 miliwn o deithiau¹⁹. Mae'r gyfran uchaf o dwristiaeth arfordirol yn dwristiaeth hamdden a gwyliau; mae'n arbennig o bwysig i'r Gogledd a'r De-orllewin, ac yno mae'n gyfrifol am 57% a 48% o'r twristiaeth²⁰.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r unig Barc Cenedlaethol yn y DU sydd wedi'i ddynodi ar sail ei arfordir¹³.

Mae safleoedd Treftadaeth y Byd arfordirol yn cynnwys cestyll megis Harlech, Conwy, Caernarfon a Biwmares²¹. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn gyffredin i'r saith Datganiad Ardal ac yn mynd o gwmpas arfordir Cymru i gyd²². Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dangos rhai o'r arfordiroedd amrywiol sydd gennym ni²². Amcangyfrifwyd bod twristiaeth arfordirol yn werth £602 miliwn yn 2013². Mae gan y farchnad dwristiaeth ffigur twf targed o 10% hyd at 2020, yn enwedig ar gyfer twristiaeth gynaliadwy².

Mae hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy wrth gefnogi'r amgylchedd naturiol yn her fawr i'r sector twristiaeth a hamdden, yn enwedig gan fod twristiaeth a hamdden yn aml yn canolbwyntio ar ardaloedd o fioamrywiaeth uchel (megis gwarchodfeydd morol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig)².





Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	-----------	-----------------------	---	------------------	-----------	-------------	------	------------

Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol




Mae'r amgylchedd arfordirol yn ddeinamig ac mae arfordir Cymru yn agored i lifogydd ac erydu arfordirol²³. Mae tua 415 cilometr o amddiffynfeydd môr artiffisial i amddiffyn asedau gwerth £8 biliwn rhag llifogydd ac erydu arfordirol^{23,24}. Mae cynefinoedd naturiol yn amddiffyn yr arfordir hefyd trwy ofera neu amsugno ynni'r tonnau yn uniongyrchol, neu yn anuniongyrchol trwy reoleiddio symudiad gwaddodion²⁵. Mae cynefinoedd naturiol ac amddiffynfeydd artiffisial yn bwysig i amddiffyn ardaloedd arfordirol²⁵, sy'n bwysig i bobl, cymunedau, economi ac amgylchedd Cymru^{23,24}.

Bydd y newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ardaloedd isel yn dod yn agored i risgiau sy'n gysylltiedig â lefel y môr yn codi, gan gynnwys llifogydd²⁶, a disgwylir y bydd mynychder a difrifoldeb stormydd yn cynyddu^{23,24}.

Mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yn flaenoriaeth i Gymru, a bydd rhaid i benderfyniadau anodd gael eu gwneud ar lefelau lleol a chenedlaethol o ran lefelau derbyniol o risg, fforddiadwyedd ac addasiad^{23,27}. Rhaid i risg llifogydd ac erydu arfordirol gael ei hystyried ochr yn ochr â ffynonellau eraill o risg llifogydd a all godi o afonydd a chyrsgiau dŵr, dŵr ffo o'r tir, draeniad trefol a chronfeydd dŵr²³.

Mae llawer o randdeiliaid yn cyfrannu at reoli a chynnal amddiffynfeydd môr. Mae gan risg llifogydd ac erydu arfordirol y potensial i effeithio ar ran sylweddol o'r boblogaeth ac adnoddau naturiol. Bydd hi'n bwysig i FCERM gael ei gyflawni mewn cydweithrediad rhwng partneriaid a chymunedau²³. Mae angen i ni gydweithredu i reoli'r risg hon.






Hafan			Pobl a lle		Adnoddau naturiol		Rheoli ein hamgylchedd		
Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth

Rheoli traethlin



SMP2s a grwpiau arfordirol sy'n berthnasol i Gymru




Mae'r ail genhedlaeth o Gynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2s) wedi'i datblygu gan grwpiau arfordirol hwyluso datblygiad polisiâu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) cynaliadwy dros y 100 mlynedd nesaf²⁸. Bydd y rhain yn lleihau'r risgiau i bobl a'r amgylcheddau adeiledig, hanesyddol a naturiol²⁸. Mae SMP2s yn ddogfennau anstatudol ac yn cael eu defnyddio i lywio cynlluniau strategol ehangach²⁸.

Mae'r opsiynau polisi *Dal y Llinell*, *Dim Ymyrraeth Weithredol* neu *Adlinio a Reolir* wedi'u haseinio i rannau o'r arfordir dros y tymor byr (2005-2025), tymor canolig (2025-2055) a thymor hir (2055-2105)²⁸. Gall cyfuniad o bolisiâu gael eu cynnig dros hyd yr SMP2 ar gyfer ardal arfordirol²⁸.

Bydd addasiad arfordirol (addasu'r arfordir i'w wneud yn fwy cydnherth) yn ofynnol fel y nodir gan newidiadau yn y polisi SMP2 i ddarparu arfordir mwy cynaliadwy a chydnerth i helpu i reoli a lliniaru risgiau llifogydd ac erydu arfordirol.

Lle disgwylir y bydd lleoliadau'n parhau i gael eu hamddiffyn, bydd angen ystyried atebion natur hefyd i wella cydnherthedd amgylcheddol a chyflawni buddiannau ehangach. Gall dulliau o'r fath gael eu hystyried fel ymyrraeth annibynnol neu hybrid gyda dyluniad peirianeg galed draddodiadol.

Mae Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu camau i fynd i'r afael â'r heriau a gwireddu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rheoli parthau arfordirol, addasiad ac atebion natur²⁹.



Noder: Mae Grŵp arfordirol Ynys Enlli i Landudno wedi uno gyda grŵp arfordirol Bae Ceredigion bellach.



Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	-----------	-----------------------	--------------------------------------	------------------	------------------	-------------	------	------------

Gwastraff morol



Mae gwastraff yn yr amgylchedd morol yn cynnwys dŵr gwastraff o dai a diwydiant, draeniad o ddŵr storm a dŵr ffo, amaethyddiaeth a llygredd o ardaloedd trefol a gwledig². Mae dŵr ffo o dir sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd yn cael ei alw'n llygredd gwasgaredig; gall gael effeithiau negyddol ar ardaloedd mawr o systemau morol a dŵr croyw³⁰. Mae llygredd yn y tarddle yn ollyngiadau arwahanol o un ffynhonnell; mae'r achosion hyn yn gallu bod yn fach iawn ar eu pennau eu hunain ond, gyda'i gilydd, maen nhw'n gallu arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol³⁰. Mae effeithiau dŵr gwastraff heb ei drin yn amrywio o ddisbyddu ocsigen yn arwain at niwed i ecosystemau i risgiau iechyd posibl o glefydau yn y dŵr. Mae sbwriel, a phlastigau yn enwedig, yn fygythiad mawr i gyfanrwydd a gwydnwch ecosystemau morol².

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd o ran sicrhau bod gollyngfeydd carthffosiaeth amrwd yn cael eu disodli gan waith trin dŵr gwastraff, ac mae gan Dŵr Cymru ymateb strategol i helpu i gyflawni statws amgylcheddol 'da' ar gyfer ein hafonydd, ein llynnoedd a'n dyfroedd arfordirol³¹. Mae llygredd gwasgaredig sy'n cyfrannu at gyflwyno llwyth o facteria i ddyfroedd ymdrochi yn cynnwys systemau draenio sydd wedi'u cysylltu'n anghywir, systemau trin carthffosiaeth preifat a reolir yn wael, tanciau septig anheddau a thoiledau cyhoeddus nad ydyn nhw'n cael eu cynnal a'u cadw a rheolaeth wael a dŵr ffo o ardaloedd magu da byw³². Wrth gynllunio gwaith trin i'r dyfodol, bydd y risg i ddŵr ymdrochi a gwelyau pysgod cregyn yn cael ei hystyried a bydd nifer y gollyngiadau a ganiateir bob blwyddyn yn cael ei chyfyngu³¹.

Am sawl rheswm, gan gynnwys stormydd difrifol mwy mynych a thwf ardaloedd adeiledig, mae rhwydwaith carthffosydd Dŵr Cymru yn gorfod ymdrin â llifau uwch o ddŵr wyneb². Mae seilwaith carthffosiaeth a draeniad hyfyw yn bwysig i gefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol ac i leihau'r risg o lifogydd mewn ardaloedd trefol².

Mae rhai arferion amaethyddol, megis gwartheg yn yfed o nentydd ac afonydd, yn gallu cael effaith negyddol ar ansawdd y dŵr ac yn fygythiad i ddyfroedd arfordirol³³. Mae gofalu am ein priddoedd trwy atal erydiad a dŵr ffo yn mynd i mewn i nentydd ac afonydd a sicrhau bod gwrteithiau, slyri a gwastraff arall yn cael eu gwasgaru a'u rheoli yn unol â'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da yn bwysig i amddiffyn ansawdd dŵr³⁴. Mae ffensio o gwmpas glannau afon i atal da byw rhag mynd i mewn i'r afon a sathru'r glannau (gan arwain at erydu pridd) o fudd i ansawdd dŵr ac yn darparu coridorau cynefin gwerthfawr i fywyd gwyllt^{33,35}.



©CNC. Dŵr ymdrochi Porth Neigwl. Tîm arfordirol (dyfroedd ymdrochi a physgod cregyn)



©CNC. Dŵr ymdrochi Morfa Nefyn. Tîm arfordirol (dyfroedd ymdrochi a physgod cregyn)



Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	-----------	-----------------------	--------------------------------------	------------------	-----------	--------------------	------	------------

Diwydiannau morol



Mae ein hardal forol yn cefnogi llawer o ddiwydiannau (gweler y [sleid canlynol](#) ar “ynni”):

- Ystyr **agregau morol** yw tywod a graean a echdynnir o wely'r môr. Mae 47% o'r tywod a'r graean a werthir yng Nghymru yn dod o'r amgylchedd morol, gydag 80% o'r galw am agregau mân yn y De yn cael ei fodloni trwy ffynonellau morol.
- Mae **carthu** o gwmpas porthladdoedd a marinas yn gwaredu silti ac yn cynnal dyfnderoedd mordwyadwy.
- Mae **dyframaethu** yn cynnwys gwahanol systemau magu pysgod cregyn, pysgod a gwymon, gan gynnwys cyweinio. Mae biomas morol ar gyfer cynhyrchu ynni trwy gyweinio gwymon yn datblygu i fod yn un o'r sectorau busnes dyframaethu mwyaf newydd. Yng Nghymru, mae naw busnes dyframaethu ar draws 13 o safleoedd yn cyflogi 23 aelod o staff ar gcontractau cyfnod penodol. Misgl byw yw'r cynnyrch mwyaf, gan gynrychioli 37% o'r holl fisgl a gynhyrchir yn y DU.
- Mae **pysgodfeydd** yn cynnwys pysgota masnachol ar y glannau ac ar y môr, gan gynnwys cyweinio molysgiaid a chramenogion, gwymon, mwsogl môr ac algâu. Mae meysydd eraill sy'n gysylltiedig â'r diwydiant hwn yn cynnwys asiantaethau gorfodi pysgodfeydd, adeiladu cychod a chynnal a chadw cychod. Mae 33 o borthladdoedd pysgota a 417 o gychod gydag 842 o aelodau staff ar gcontractau cyfnod penodol yn cael eu cyflogi yng Nghymru. Mae genweirio môr hamdden yn sector twf ar gyfer pysgota a thwristiaeth.
- Mae **amddiffyn** yn cynnwys llongau ac awyrennau gweithredol, canolfannau llyngesol EM, buddiannau mordwyol ar y wyneb a thanfor, ystodau acwstig tanfor, ymarferion morwrol, ymarferion tir a môr, canolfannau hyfforddiant arfordirol a chanolfannau profi a gwerthuso.
- Mae **ceblau tanfor** yn cynnwys gosod, gweithredu a chynnal a chadw ceblau telathrebu tanfor. Amcangyfrifir bod ceblau telathrebu yn werth £260 miliwn i Gymru.
- Cafodd 59 miliwn tunnell o gargo ei drafod ym **mhorthladdoedd Cymru** yn 2014, gan gynrychioli 12% o gyfanswm llif cargo'r DU. Mae porthladdoedd a morgludiant yn cynnwys cludiant llwythi môr a dŵr arfordirol, cludiant teithwyr môr a dŵr arfordirol a thrafod cargo. Mae gweithgareddau eraill sy'n cefnogi morgludiant yn cynnwys adeiladu ac atgyweirio llongau, adeiladu prosiectau dŵr, mordwyo, arweiniad a docio, storio a warysu. Mae'r galw am fewnforio ac allforio nwyddau a chapasiti porthladdoedd yn allweddol i sbarduno cyfeiriad porthladdoedd a morgludiant yng Nghymru.



© Blaise Bullimore. CNC. Llong agregau

Mae'r holl wybodaeth yma yn dod o Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru². I gael mwy o wybodaeth, gweler y crynodeb hwn ar [Cynllunio Morol ar gyfer Moroedd Cymru](#) a'r [Daenlen](#) hon.



Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	-----------	-----------------------	--------------------------------------	------------------	-----------	-------------	-------------	------------

Ynni'r môr



Ar hyn o bryd, ychydig iawn o nwy ac olew confensiynol sy'n cael eu cynhyrchu yn nyfroedd Cymru⁵. Mae gan gyfleusterau porthladdoedd dŵr dwfn Cymru seilwaith olew a nwy sylweddol ar gyfer tanwyddau ffosil sy'n cael eu mewnfario; mae porthladd Aberdaugleddau yn gallu darparu 30% o holl alw'r DU am nwy³⁶. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod potensial yr amgylchedd morol ar gyfer cyfleusterau cynhyrchu ynni niwclear arfordirol newydd⁵.

Yng Nghymru, mae potensial uchel ar gyfer diwydiant ynni adnewyddadwy'r môr cystadleuol llwyddiannus oherwydd yr adnoddau tonnau, llanw a gwynt helaeth, gan gynnwys cadwyn gyflenwi a seilwaith grid da³⁷. O'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, gall ynni adnewyddadwy morol wneud cyfraniad sylweddol at ddiwallu anghenion ynni Cymru⁵.

Mae'r defnydd o ddyfeisiau ffrwd lanw wedi cynnwys DeltaStream a Minesto Tidal Kite³⁸. Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy morol arfaethedig yn cynnwys Parth Arddangos Ynni'r Llanw Morlais oddi ar arfordir Ynys Môn³⁹, Parth Arddangos Ynni'r Tonnau Sir Benfro⁴⁰ ac Ardal Profi Ynni'r Môr yn Aberdaugleddau⁴¹. Cymru sydd â rhai o'r ffermydd gwynt ar y môr a'r seilwaith cysylltiedig (Gogledd Hoyle a Gwastadeddau'r Rhyl) cyntaf yn y DU, a Gwynt y Môr yw un o'r ffermydd gwynt mwyaf yn y byd⁴². Mae yna botensial hefyd ar gyfer codi mwy o ffermydd gwynt ar y môr yn nyfroedd Cymru⁵.

Mae rhai o'r heriau mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy morol yn cynnwys ansicrwydd ynghylch effeithiau amgylcheddol, effeithiau gweledol a'r angen am bolisiâu clir a chynllunio strategol⁵.





Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Rheoli ein hamgylchedd

Poblogaeth	Iechyd	Morweddau	Twristiaeth a hamdden	Perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Rheoli traethlin	Gwastraff	Diwydiannau	Ynni	Dyframaeth
------------	--------	-----------	-----------------------	--------------------------------------	------------------	-----------	-------------	------	------------

Dyframaethu morol



Ystyr dyframaethu yw ffermio pysgod a physgod cregyn (Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru (WMER)). Dyma'r prif fathau o ddyframaethu a geir ar hyn o bryd yng Nghymru :

1. Mae **dyframaethu pysgod**² yng Nghymru yn golygu systemau ailgylchredeg dŵr môr ar y tir². Mae systemau ailgylchredeg dŵr môr wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddraenogiad y môr (*Dicentrachus labrax*)⁴³ ac maen nhw'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar godi pysgod i lanhau llau pysgod parasitig ar gyfer ffermydd eog, megis y wrachen fraith (*Labrus bergylta*)⁴⁴ a'r iâr fôr (*Cyclopterus lumpus*)⁴⁵.

2. Mae **dyframaethu pysgod cregyn**² yn golygu trin misgl (*Mytilus edulis*)⁵. Mae yna ddi-ddordeb ar hyn o bryd mewn tyfu misgl ar raffau rhwng bwiau yn y golofn ddŵr, gan alluogi hadau misgl i setlo'n naturiol ar y rhaffau^{46,47}.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu twf cynaliadwy dyframaethu morfilod asgellog a physgod cregyn erbyn 2020⁴⁸.

Mae wystrysen anfrodorol y Môr Tawel, *Crassostrea gigas*, yn cael ei thyfu ar drestlau ar afon Menai⁴⁹ ac mae'r wystrysen frodorol yn cael ei thyfu ar drestlau yn Aberdaugleddau⁵⁰. Mae cyfyngiadau ar dwf y busnesau dyframaethu hyn oherwydd diffyg safleoedd addas ac adnoddau hadau a chyfyngiadau amgylcheddol⁴⁷.

Mae diddordeb cynyddol mewn ffermio gwahanol fathau o wymon yn ein dyfroeddd⁴⁷. I gychwyn, bydd gwymon yn cael ei ddefnyddio fel deunydd crai a chynhwysyn gwerth ychwanegol ar gyfer diwydiannau bwyd / diod a busnesau maeth Cymru⁵¹.





Hafan

Pobl a lle

Adnoddau naturiol

Ein hamgylchedd

Yn yr adran hon, rydyn ni'n edrych ar agweddau ar yr amgylchedd sy'n torri ar draws yr ardal forol. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau estron goresgynnol, prosesau ffisegol, yr hinsawdd ac ansawdd dŵr



© NRW. Subtidal scene in Welsh waters

**Bioamrywiaeth:
Rhwydwaith Ardaloedd
Morol Gwarchodedig
(MPA)**

**Bioamrywiaeth:
Rhywogaethau estron
goresgynnol**

Prosesau naturiol

Hinsawdd

Statws ansawdd dŵr 1

Statws ansawdd dŵr 2

Dyfroedd ymdrochi

Geoamrywiaeth



Hafan		Pobl a lle		Adnoddau naturiol		Ein hamgylchedd	
Bioamrywiaeth: Ardaloedd gwarchoddedig	Bioamrywiaeth: Rhywogaethau goresgynnol	Prosesau naturiol	Hinsawdd	Statws ansawdd dŵr 1	Statws ansawdd dŵr 2	Dyfroedd ymdrochi	Geoamrywiaeth

Bioamrywiaeth: Rhwydwaith Ardaloedd



Morol Gwarchoddedig (MPA)


Mae gan Gymru ecosystem forol gyfoethog ac amrywiol⁵², gyda 69% o ddyfroedd mewndirol Cymru wedi'u dynodi fel rhan o'r rhwydwaith o 139 o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAs)⁵³. Mae'r [fideo](#) hwn yn esbonio pam mae gennym ni ardaloedd morol gwarchoddedig a pham maen nhw mor bwysig.

Mae bioamrywiaeth yn arwydd o iechyd ein moroedd⁵⁴. Gellir defnyddio bioamrywiaeth hefyd i fesur cydnerthedd ecosystem⁵⁵ ac mae bioamrywiaeth uchel yn gallu cefnogi cynhyrchiant ecosystem hefyd⁵⁶. Mae dyfroedd Cymru yn arbennig o bwysig i rai cynefinoedd a rhywogaethau⁵⁷; er enghraifft, mae rhai o'r enghreifftiau mwyaf deheuol o welyau marchfisglod, sy'n hynod sensitif ac o dan fygythiad, yn nyfroedd Cymru⁵⁸.

Mae'r dyfroedd o gwmpas Bae Ceredigion o bwysigrwydd cenedlaethol gan mai yn y dyfroedd hynny mae'r unig gymuned gydnabyddedig o ddolffiniaid trwynbwl yng Nghymru a Lloegr⁵⁹, gyda phoblogaeth o rhwng 200 a 300⁶⁰.

Ynghyd â'r Alban, mae gan Gymru dros 90% o boblogaeth y DU o bâl Manaw⁶¹ a thros 8% o boblogaeth y byd o wylan y Gogledd^{62, 63}. Ym mis Mehefin 2003, cafodd AGA Bae Caerfyrddin ei dynodi fel safle gaeafu'r fôr-hwyaden ddu, a dyma un o'r safleoedd gaeafu pwysicaf ym Mhrydain ac Iwerddon ar gyfer y rhywogaeth hon⁶⁴.

Mae ecosystem forol fioamrywiol yn cynyddu cydnerthedd ac yn darparu llawer o fuddiannau uniongyrchol ac anuniongyrchol^{65, 66, 67, 68}. Mae'r pysgod a'r pysgod cregyn rydyn ni'n eu bwyta yn rhan o we fwyd y môr ac yn dibynnu ar y cynhyrchiant a'r rhyngweithiadau o fewn y we fwyd honno. Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd (e.e. Dolffiniaid ac adar y môr) yn bwysig ar gyfer twristiaeth, gan ddenu pobl i'r arfordir⁶⁹. Mae cynefinoedd a rhywogaethau eraill yn bwysig ar gyfer storio carbon⁷⁰, cynnal ansawdd dŵr⁷¹ a gwaredu gwastraff⁷².





Hafan		Pobl a lle		Adnoddau naturiol		Ein hamgylchedd	
Bioamrywiaeth: Ardaloedd gwarchoddedig	Bioamrywiaeth: Rhywogaethau goresgynnol	Prosesau naturiol	Hinsawdd	Statws ansawdd dŵr 1	Statws ansawdd dŵr 2	Dyfroedd ymdrochi	Geoamrywiaeth

Bioamrywiaeth: Rhywogaethau estron goresgynnol

Mae rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) yn cynnwys anifeiliaid neu blanhigion sy'n gallu lledaenu y tu allan i'w cyrhaeddiad brodorol, gan wneud niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd neu'r ffordd rydyn ni'n byw⁷³. Amcangyfrifir bod INNS yn costio £128 miliwn y flwyddyn i economi Cymru⁷⁴. Mae INNS morol yn gallu bod yn anodd eu rheoli neu eu dileu unwaith iddyn nhw sefydlu eu hunain⁷⁵. Dylai'r broses o fynd i'r afael ag INNS morol ganolbwyntio ar fesurau i atal eu cyflwyniad a'u lledaeniad. Mae rhai gweithgareddau dynol yn gweithredu fel llwybrau i gludo INNS, megis⁷³:

- morgludiant
- gweithgareddau cychod hamdden
- dyframaeth
- carthu⁷⁶


Mae cydberthynas gref rhwng gweithgareddau yn yr amgylchedd morol a chofnodion INNS⁷⁷. Mae manau lle mae cofnodion yn cael eu cofnodi yn cynnwys safleoedd marina ledled Cymru⁷⁸. Dylid rhoi blaenoriaeth i dargedu'r llwybrau perthnasol yn yr ardaloedd hyn i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu INNS⁷³. Gallwch gael mwy o wybodaeth [yma](#) ac [yma](#).

Mewn rhai achosion, os caiff rhywogaeth ei nodi yn gynnar ac mae'n fath y gellir ei reoli, mae'n bosibl ei ddileu⁷³. Mae monitro a gwyliadwriaeth barhaus yn bwysig i nodi dosbarthiad INNS morol fel y gallwn gymryd camau cyflym i reoli'r risg o ledaenu neu o bosibl ddileu cyflwyniadau newydd⁷³.

Gallwch gael mwy o wybodaeth yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru, [Priority Marine INNS Species](#).



Dde: Ewin mochyn (*Crepidula fornicata*)
© Ysgrifenyddiaeth rhywogaethau
estron Prydain Fawr 2018
Isod: Wystrysen y Môr Tawel
(*Crassostrea gigas*) Paul Brazier CNC





Hafan		Pobl a lle		Adnoddau naturiol		Ein hamgylchedd	
Bioamrywiaeth: Ardaloedd gwarchoddedig	Bioamrywiaeth: Rhywogaethau goresgynnol	Prosesau naturiol	Hinsawdd	Statws ansawdd dŵr 1	Statws ansawdd dŵr 2	Dyfroedd ymdrochi	Geoamrywiaeth

Prosesau ffisegol



Mae prosesau ffisegol morol ac arfordirol yn cynnwys:

- hydrodynameg (e.e. tonnau, llanw, cerrynt, lefelau dŵr)
- gwaddodion a'u cludiant a'u daeareg
- topograffi
- morffoleg

Mae rhyngweithiad y cydrannau hyn yn arwain at gyflyrau dynamig sy'n newid dros amrywiaeth o raddfeydd o amser a gofodol, ac yn ymateb i newidiadau naturiol a dynol^{79, 80, 81}.


Nid yw prosesau ffisegol yn unffurf ac maent yn amrywio yn seiliedig ar ddaeareg ranbarthol a lleol, gwaddodion a'r cysylltiad â grymoedd allanol^{79, 80, 81}. Mae gwahanol amodau yn arwain at gymysgedd o amgylcheddau ynni uchel ac ynni isel (cysgodol), sy'n cefnogi gwahanol dirffurfiau a thirffurfiau gwely, a chasgliad amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau^{79, 80, 81}.

Mae gan arfordir Cymru amrediad llanw mawr; er enghraifft, mae gan Aber Afon Hafren yr amrediad llanw uchaf ond un yn y byd⁸². Mae yna gerrynt llanw cyflym yn Aber Afon Hafren ac oddi ar arfordir Sir Benfro ac Ynys Môn². Gall rhannau o' De-orllewin brofi tonnau egni uchel².

Mae gan yr arfordir a gwely'r môr fathau amrywiol o waddod yn cynnwys llaid a silt mân mewn aberoedd cysgodol, traethau tywodlyd, twyni a banciau islanwol, traethau graean a 'Sarnau' sy'n ymestyn i Fae Ceredigion, a glannau creigiog clogwyni a gwely'r môr². Mae prosesau ffisegol yn rhyngweithio ac yn dylanwadu ar dderbynyddion morol mewn rhyw ffordd, ac maent yn elfen sylfaenol sy'n dylanwadu ar natur a chyflwr yr amgylchedd morol ac arfordirol^{79, 80, 81}.

Mae prosesau ffisegol yn cefnogi manteision amrywiol megis:

- ansawdd a maint cynefinoedd, rhywogaethau a ffurfiau daearegol morol ac arfordirol
- asedau/seilwaith naturiol ar gyfer hamdden, twristiaeth a busnesau (e.e. traethau)
- darparu ynni ar gyfer ynni adnewyddadwy morol, adnodd tywod ar gyfer agregau a dŵr ar gyfer diwydiannau arfordirol
- darparu amddiffyniad naturiol rhag llifogydd naturiol ac erydu arfordirol^{2, 79, 80, 81}.



Llun o Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru: Crynodeb, tudalen 25



Hafan		Pobl a lle		Adnoddau naturiol		Ein hamgylchedd	
Bioamrywiaeth: Ardaloedd gwarchoddedig	Bioamrywiaeth: Rhywogaethau goresgynnol	Prosesau naturiol	Hinsawdd	Statws ansawdd dŵr 1	Statws ansawdd dŵr 2	Dyfroedd ymdrochi	Geoamrywiaeth

Hinsawdd




Deallir bod y crynodiad byd-eang cynyddol o nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yn sbarduno newid yn yr hinsawdd²⁶. Amcangyfrifir bod gweithgareddau dynol yn gyfrifol am oddeutu 1.0°C o'r cynnydd mewn cynhesu byd-eang uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol a rhagwelir cynnydd o 1.5°C rhwng 2030 a 2052, os bydd y gyfradd bresennol yn parhau²⁶.

Mae Partneriaeth Effeithiau Newid Hinsawdd Morol y DU (www.mccip.org.uk) yn dangos effeithiau newid yn yr hinsawdd ar foroedd ac arfordiroedd y DU. Dengys tystiolaeth dymheredd uwch ar wyneb y môr a lefelau uwch o asideiddio'r cefnfor, sy'n achosi problemau sylweddol i ecosystemau morol^{83, 84}. Mae rhai rhywogaethau morol deheuol yn dod yn fwy cyffredin yn nyfroedd y DU ac mae dosbarthiad adar môr yn ansicr yn y dyfodol wrth i dymheredd y môr godi ac mae digwyddiadau dŵr uchel eithafol yn dod yn fwy cyffredin^{85, 86, 87}. Am ragor o wybodaeth am sut y gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd morol gwarchoddedig gweler [yma](#) am gyfres o gardiau cryno. Am fanylion pellach ar y broes o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny a newid yn yr hinsawdd ym moroedd sgafell y DU gweler [yma](#).

Mae gan “[Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd](#)” Llywodraeth Cymru darged i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru 3% bob blwyddyn a chyflawni gostyngiad o 40% o leiaf erbyn 2020 o gymharu â lefelau 1990.

Mae gan yr ardal forol botensial mawr ar gyfer ffynonellau ynni carbon isel. Mae gan Gymru 1200 km o arfordir, porthladdoedd môr dwfn mewn mannau strategol, seilwaith grid hygyrch, sylfaen gweithgynhyrchu a hyd at 6.2 GW o gapasiti cynhyrchu amcangyfrifedig⁸⁸. Mae hyn yn rhoi'r potensial i ni ddod yn arweinydd byd-eang ar gynhyrchu ynni carbon isel.





Hafan		Pobl a lle		Adnoddau naturiol		Ein hamgylchedd	
Bioamrywiaeth: Ardaloedd gwarchoddedig	Bioamrywiaeth: Rhywogaethau goresgynnol	Prosesau naturiol	Hinsawdd	Statws ansawdd dŵr 1	Statws ansawdd dŵr 2	Dyfroedd ymdrochi	Geoamrywiaeth


Statws ansawdd dŵr




Ansawdd dŵr da yw sylfaen ecosystem forol a dŵr croyw iach⁹⁶. Pan fo ansawdd y dŵr yn uchel (neu dda), mae gan y corff dŵr fwy o allu i ymdopi â newid a phwysau o ffynonellau dynol a naturiol². Mae ansawdd dŵr da o fudd i dwristiaeth a hamdden a lles cymunedau arfordirol, ac yn cefnogi datblygiadau arfordirol, ffyniant economaidd arfordirol, lles cymdeithasol arfordirol ymhlith pethau eraill².

Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn ei gwneud yn ofynnol i Gymru fonitro amrywiaeth o baramedrau amgylcheddol (ffisegol, cemegol ac ecolegol) i asesu statws cyffredinol cyrff dŵr⁸⁹. Mae'r Gyfarwydddeb yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyrraedd statws cyffredinol 'da' ar gyfer pob corff dŵr⁸⁹. Mae 55 corff dŵr sydd wedi'u dosbarthu fel rhai aberol neu arfordirol^{91,95}. Mae'r map gyferbyn yn dangos statws y cyrff dŵr hyn. Caiff Cilfach Tywyn mewnol ac allanol yn y De-orllewin eu dosbarthu fel cyrff dŵr 'gwael', tra mai corff dŵr arfordirol Ynysoedd y Moelrhoniaid ger Ynys Môn yw'r unig gorff dŵr morol sydd wedi'i ddsbarthu'n 'uchel' yng Nghymru⁹⁵. Maent yn cynrychioli 4% o gyfanswm y cyrff dŵr morol yn y drefn honno.


